



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Panel Craffu Perfformiad - Addysg**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Iau, 22 Ebrill 2021 am 4.00pm

Yn bresennol: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorwyr

C Anderson
D W Helliwell

Y Cynghorwyr

M Durke
B Hopkins

Y Cynghorwyr

S J Gallagher
L James

Aelod Cyfetholedig

D Anderson-Thomas

Aelod Cyfetholedig

A Roberts

Aelod Cyfetholedig

Hefyd yn bresennol

Jennifer Raynor

Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

Swyddogion

Rob Davies
Rob Phillips
Helen Morgan-Rees
Michelle Roberts

Pennaeth Uned y Cyfnod Uwchradd
Ymgynghorydd Herio
Cyfarwyddwr Addysg
Swyddog Craffu

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorwyr: A M Day, S M Jones, M A Langstone ac L J Tyler-Lloyd

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim

• Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

3 Llythyrau a Chofnodion

Derbyniwyd y llythyr a'r cyfarfodydd.

4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 Diweddariad - Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i weithredu

Daeth Rob Phillips, Ymgynghorydd Herio a Hyrwyddwr ADY i'r Panel a chyflwynodd sleidiau ar y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Abertawe, gan drafod y materion canlynol gyda Chyngorwyr.

- Y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb a thegwch i ddisgyblion
- Amcanion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (ALNET), y mae saith gwrthwynebiad sy'n sail i'r Ddeddf gan gynnwys:
 1. ADY i gymryd lle'r term AAA
 2. Y Ddeddf yn cwmpasu pawb o 0 i 25 oed
 3. Cynllun statudol unedig – y CDU
 4. Cyfranogiad cynyddol gan blant a phobl ifanc
 5. Dyheadau uchel a gwell canlyniadau
 6. System symlach, llai gwrthwynebol
 7. Rhagor o gydweithio
 8. Osgoi anghytundebau/datrysiadau cynnar
 9. Hawliau apêl clir a chyson
 10. Y Côt ADY
 11. System ddwyieithog
- Pwysigrwydd newid diwylliant o ran gallu ei gyflwyno. Mae ADY yn flaenoriaeth i'r Gyfarwyddiaeth ac mae'n ymwneud â gwneud newidiadau trawsnewidiol.
- Mae strategaeth ADY Abertawe yn cynnwys y blaenoriaethau allweddol a'r rhain yw Pontio, Nifer y lleoedd, Darpariaeth, Ansawdd, Partneriaeth ac Asesu
- Taith y strategaeth ADY gan gynnwys, er enghraifft: datblygu arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mapio darpariaeth, cyfleoedd hyfforddi a datblygu prosesau statudol.
- Bod y Ddeddf yn cwmpasu ystod lawer ehangach o ddisgyblion na'r disgyblion a gwmpesir ar hyn o bryd.
- Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r broses. Mae'r Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn dangos canlyniadau clir ynglŷn â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni ar y dechrau. Yr egwyddor sylfaenol yn hyn o beth yw osgoi anghytundebau drwy ddatrys materion yn gynnar.
- Bu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person yn Abertawe ers peth amser, ac mae'r broses wedi'i hadeiladu o amgylch y plentyn.
- Mae cydweithredu amlasiantaethol yn allweddol
- Bwrw ymlaen ag argymhellion a wnaed ar ôl adolygiad o Gyfleusterau Addysgu Arbennig ond mae hyn yn gyflawniad tymor hwy
- Gwnaed cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer herio dysgwyr gan gynnwys darpariaeth newydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion, y Cynllun Ailintegreiddio a'r Strategaeth Ymddygiad.
- Mae adolygiad ariannu ADY ar y gorwel. Bydd angen ariannu'r gofynion a'r heriau sy'n rhan o Ddeddf ALNET a'r strategaeth yn Abertawe fel bod gennym y gallu yma i wneud hynny.
- Mae rhieni'n cymryd rhan yn y broses ar nifer o lefelau ac mae gweithgarwch cydgynhyrchiol yn digwydd lle bo hynny'n briodol.
- Mae'r panel yn falch o weld Abertawe'n cael gafael gadarn ar y newidiadau sydd eu hangen ac yn dechrau eu gwireddu.

6 Adroddiad a Llythyr Estyn - Ymateb Addysg i'r Pandemig

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg ei bod wedi bod yn anodd asesu perfformiad ac adrodd arno yn ystod yr aflonyddwch dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd COVID. Felly mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn clywed am ein cynnydd, sydd wedi bod yn bwysig o ran rhoi lefel o sicrwydd gan reolydd allanol. Cwblhaodd Estyn hyn fel rhan o adolygiad thematig cenedlaethol ar yr ymateb i'r pandemig ar draws addysg yng Nghymru.

Gwnaed pum argymhelliad yn yr adolygiad cenedlaethol ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain. Mae Estyn yn dod i Abertawe yr wythnos nesaf i weld sut yr ydym yn ymateb i'r rhain a sut y maent yn cael eu hintegreiddio yn ein cynllun adfer.

Dyma argymhellion Estyn i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:

A1 - Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud â diffyg mynediad at gyfrifiaduron neu gyswllt â'r we

A2 - Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UC Dau

A3 - Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 - Sefydlu strategaethau i fonitro a mynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion

A5 - Creu cyfleoedd i bwysu a mesur a gwerthuso effaith polisiâu ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm

7 Diweddariad - Y Cwricwlwm Newydd gan gynnwys cynnydd o ran ei weithredu

Rhoddodd Rob Davies, Pennaeth y Tîm Cyfnod Uwchradd gyflwyniad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y sefyllfa bresennol o ran gweithredu Cwricwlwm Newydd Cymru yma yn Abertawe.

- *Cyn y pandemig*
Gweithgor wedi'i sefydlu i sefydlu Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm LIC yn rhyddhau dogfennaeth derfynol Cwricwlwm i Gymru - Ionawr 20
Cynhadledd Gwyddoniaeth Dysgu Penaethiaid Trawsgyfnod, Iansio Cynllun Rhoi ar Waith ar gyfer Cwricwlwm Abertawe – cynllun 4 cam
- *Bwlch ym mhrif waith y cwricwlwm oherwydd tarfiad y pandemig ond:*
Bu llawer o ddysgu proffesiynol o safon uchel
Parhaodd ychydig bach o ddatblygiad mwy "normal" drwy rwydweithiau a hyfforddiant i lywodraethwyr
LIC wedi parhau gyda map ffordd Cwricwlwm i Gymru - Rhyddhau Taith i'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Tachwedd 21 (cynllun 4 cam), Pasio bil Cwricwlwm i Gymru - Mawrth 21 - Ymgynghoriad Diwygio Cymwysterau - Ebrill 21 ac Ymgynghoriad ar Ganllawiau Gwella Ysgolion - Mawrth 21
- *Mae'r camau nesaf yn cynnwys:*
Rhoi lle i ysgolion ar gyfer tymor yr haf, cyfnod hwy o amser mae'n debyg
Diweddarau'r Cynllun Rhoi ar Waith ar gyfer Cwricwlwm Abertawe i adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i'r pandemig a'r dirwedd ranbarthol sy'n dod i'r amlwg

Nod o ymweld ag ysgolion unwaith eto yn yr hydref, neu pan fydd amser i wneud hynny

- Mae gan Abertawe dri chynllun gweithredu rhwng 2019-2022 ond oherwydd COVID bu rhywfaint o darfu. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu i ymgorffori unrhyw newidiadau sydd eu hangen.
- Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn cael ei ailstrwythuro ar lefel leol ond mae'n ansicr mewn perthynas â newidiadau i'r ôl troed rhanbarthol. Daw'r Ymgynghorwyr Herio'n Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion. Bydd eu rôl yn un llawer mwy cefnogol i ysgolion drwy adferiad COVID.
- O safbwynt Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'r cwricwlwm newydd yn gyffrous iawn gan ei fod yn gallu bod yn fwy ymatebol i anghenion ADY.

8 Rhaglen Waith Craffu ar Addysg 2020/2021

Adolygodd y panel y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25pm

Cadeirydd